

## Y SENEDD - CYFARFOD ARBENNIG

Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd am 14.00 ar 18 EBRILL 2018, ym MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (tan gofnod 62.5); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) (tan gofnod 62.5); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC); Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Chris Finlayson; Mr Nigel Hardy; Dr Anwen Jones; Dr David Ceri Jones; Dr Louise Marshall; Yr Athro Robert Meyrick; Dr Ola Olusanya; Yr Athro Maria Plotnikova; Dr Rachel Rahman; Mrs Anne Uruska; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu UMAber; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid; a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SAACH).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; a'r Athro Malcolm Thomas.

### 59. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Gwobrau Dewisiadau Myfyrwyr WhatUni

Byddai seremoni Gwobrau Dewisiadau Myfyrwyr WhatUni 2018 yn cael ei chynnal y noson ddilynol. Roedd Prifysgol Aberystwyth ar y rhestr fer am saith gwobr, gan gynnwys Prifysgol y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Byddai dirprwyaeth yn mynd i'r seremoni i gynrychioli'r Brifysgol, gan gynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); a Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth (UMAbert).

### 60. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Oherwydd natur yr ad-drefnu arfaethedig yn y Brifysgol, a oedd yn y cyfnod ymgynghorol ar hyn o bryd, roedd gan nifer o aelodau'r Senedd fuddiant personol yng nghanlyniad y broses ymgynghori. Atgoffwyd yr aelodau bod cyfraniad y Senedd i'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r fframweithiau academaidd arfaethedig, a byddai'r drafodaeth yn cael ei seilio ar egwyddorion yr adroddiad ac nid ar unigolion a'u swyddogaethau. Ni ystyriwyd felly bod angen i unrhyw aelod o'r Senedd ymesgusodi o'r drafodaeth.

### 61. GWEITHREDU DIWYDIANNOL UCU

NODWYD

1. Cyhoeddwyd canlyniad pleidlais aelodau'r cynllun pensiwn (USS) ddydd Gwener ddiwethaf, a chafwyd cefnogaeth amlwg i'r ddealltwriaeth y daethpwyd iddi ynghylch arolwg o Gynllun Pensiynau'r Prifysgolion, ac fe ddaeth y gweithredu diwydiannol nad yw'n streic i ben.
2. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) a'r tîm yn gweithio'n galed i sicrhau na fyddai myfyrwyr dan anfantais o ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol gan aelodau'r UCU ers rhai wythnosau. Croesawodd yr aelodau'n arbennig y sicrwydd a roddwyd y byddai'n bosibl naill ai i addasu asesiadau, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at achrediadau proffesiynol, i'w seilio ar yr hyn y byddid wedi'i ddysgu, neu i wneud lwfans priodol wrth farcio a chysoni.

## 62. AD-DREFNU ARFAETHEDIG Y BRIFYSGOL

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor, yn ymgorffori'r ddogfen ymgynghorol 'Cynnig i Ad-drefnu Swyddogaethau Gweithredol, Fframweithiau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol (gan gynnwys Gweinyddiaeth/Cymorth Academaidd)' (SEN1718-068).

### NODWYD

1. Ddydd Gwener, 23 Mawrth 2018, roedd aelodau Annibynnol a myfyrwyr-aelodau'r Cyngor wedi cyfarfod i drafod cynigion i ad-drefnu'r Brifysgol yn sylweddol er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) ac i sicrhau bod costau'n fwy cyson â lefelau incwm cyfredol. Er bod nifer myfyrwyr y Brifysgol wedi gostwng ers rhai blynnyddoedd, nid oedd y fframweithiau rheolaethol wedi addasu'n unol â hynny.
2. Mae dogfennau llywodraethu Prifysgol Aberystwyth yn mynnu bod y Cyngor yn cymeradwyo cynigion i sefydlu, ailenwi, ad-drefnu, ail-gyflunio, neu ddiddymu unedau gwasanaethau proffesiynol ac academaidd. Mae'r Cyngor yn ymgymryd â hyn mewn ymgynghoriad â'r Senedd ar unrhyw gynigion yn gysylltiedig ag unedau academaidd. Felly, cafodd y Cyfarfod Arbennig hwn o'r Senedd, sef y corff llywodraethu academaidd, ei gynnull i roi cyfle i aelodau ystyried yn ffurfiol yr ad-drefnu arfaethedig yng nghyswllt unedau academaidd y Brifysgol.
3. Atgoffwyd yr aelodau y gellid cyflwyno cynigion gwahanol ac adborth trwy e-bost neu'r porth dienw ar-lein erbyn y dyddiad cau, sef 09 Mai, 2018. Bydd adborth a dderbynnid yn cael ei ystyried yn rhan o ddatblygiad y cynnig terfynol i'w ystyried gan bwyllgor o'r Cyngor.
4. Nifer yr Unedau Academaidd
  1. Er gwaethaf heriau cychwynnol a'r angen i ddatblygu fframweithiau a phrosesau newydd, teimlai'r aelodau bod nifer o Athrofeydd cyfredol y Brifysgol yn awr yn gweithio'n dda ac y byddai perygl colli arferion da o'u hail-gyflunio. Pwysleisiwyd felly bwysigrwydd sicrhau bod fframweithiau mewnol addas yn eu lle wrth i unedau academaidd newydd ddod i fod, ac y dylid defnyddio rheoliadau fel sy'n briodol i'w safoni.
  2. Croesawodd yr aelodau'r cynnig i ddisodli'r chwe Athrofa gan nifer llai o Gyfadranau / Golegau. ond, mynegwyd peth pryder am gyfluniad y tair Cyfadran / tri Choleg newydd a gynigiwyd, oherwydd nad oeddent yn gyfartal o ran maint.
  3. Trafodwyd nifer o opsiynau ar gyfer ail-gyflunio'r Cyfadranau / Colegau, a fyddent, fel unedau academaidd y sefydliad, yn gweithredu fel y prif unedau cyllidebol. Yn ystod y trafodaethau, atgoffwyd yr aelodau y byddai cynigion

gwahanol a fyddai'n lleihau'r arbedion a gynhyrchir, yn eu tro yn peri bod angen canfod arbedion ychwanegol mewn manau eraill yn y Brifysgol.

4. Y dewis a ffafriwyd yn amlwg ymhlith yr aelodau oedd tair Cyfadran neu dri Choleg newydd: byddai dau yn cynnwys disgyblaethau gwyddonol; a byddai'r llall yn cynnwys y celfyddydau, y dyniaethau, a'r gwyddorau cymdeithasol. Yr ail ddewis oedd dwy uned academaidd newydd: un i'r gwyddorau, a'r llall i'r disgyblaethau sy'n weddill.

#### 5. Enwi'r Unedau Academaidd

1. Cyn y Cyfarfod Arbennig, cafodd yr aelodau eu hannog yn benodol i ofyn am adborth gan eu hadrannau ynglŷn â galw'r unedau'n Gyfadranau neu'n Golegau. Adroddodd yr aelodau ar safbwyntiau eu hetholaethau, a'r sylwadau cadarnhaol a negyddol yng nghyswllt y ddau deitl.
2. Mynegwyd peth pryder bod y teitl Cyfadran wedi'i ddefnyddio'n flaenorol yn y Brifysgol, cyn cyflwyno'r Athrofydd yn 2013. Ond, byddai'r unedau academaidd a gynigir yn awr yn wahanol i'r Cyfadranau blaenorol am mai hwy fyddai prif unedau cyllidebol y brifysgol. Gallai defnyddio'r teitl Coleg beri dryswch i'r un graddau oherwydd statws blaenorol y sefydliad yn Goleg o fewn i fframwaith ffederal Prifysgol Cymru.
3. Ar ôl trafod y ddau ddewis, roedd mwyafrif amlwg yn ffafrio'r teitl Cyfadran, er y cydnabuwyd bod lleiafrif mawr o blaid mabwysiadu'r teitl Coleg.

#### 6. Fframweithiau Adrannol

1. Yn rhan o'r ymgynghoriad staff ar fframweithiau'r Gwasanaethau Proffesiynol yn ystod mis Rhagfyr 2017, derbyniwyd nifer o ymatebion yn tanlinellu pwysigrwydd cadw hunaniaeth y disgyblaethau academaidd trwy'r adrannau presennol. Cafodd y cynnig cyfredol i ad-drefnu ei gynllunio gan gadw hyn mewn cof.
2. Cafodd aelodau eu sicrhau nad oedd cynnig y byddai IBERS yn colli ei hunaniaeth, ac y byddai cadw'i deitl fel Athrofa o fewn i'r uned academaidd newydd yn opsiwn. Cafodd y ffaith nad oes gan IBERS fframwaith adrannol mewnol ar hyn o bryd ei nodi hefyd, a gofynnodd cynrychiolwyr yr Athrofa ar y Senedd a ellid symud unrhyw ad-drefnu yn IBERS yn ei flaen yn rhan o'r cynnig cyfredol, yn hytrach nag yn broses ar wahân.
3. Codwyd cwestiynau ynglŷn â phriodoldeb uno'r adrannau Dysgu Cymraeg a Dysgu Gydol oes, o ystyried eu prosesau mewnol gwahanol oherwydd eu ffynonellau cyllid. Pe byddai'r uno'n mynd yn ei flaen, roedd rhai o staff yr adrannau wedi mynegi safbwynt y dylai'r uned newydd fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu, a Phrofiad Myfyrwyr) newydd, yn hytrach na Deon.
4. Yn ystod yr ad-drefnu diwethaf, roedd iMLA a Dysgu Gydol Oes wedi colli'r statws o fod yn adrannau academaidd. Ers rhai misoedd cafodd y ddwy eu rheoli ar lefel Athrofaol yn absenoldeb fframweithiau adrannol mewnol. Bydd angen ystyried hyn yn rhan o'r ad-drefnu arfaethedig yn y Brifysgol. Serch hynny, pwysleisiwyd i'r un graddau y gallai disgyblaethau gadw'u proffiliau allanol heb fod angen cael eu cydnabod yn ganolfannau costau cyllidebol yn fewnol.

#### 7. Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

1. Mynegwyd peth pryder bod y gofynion ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer swyddi'r Is-Ganghellorion a'r Deoniaid newydd yn y fframweithiau diwygiedig yn aneglur. Nodwyd i'r un graddau er bod disgwyl i unigolyn siarad Cymraeg, na fyddai

hynny'n golygu'n awtomatig y byddai'n cael swydd strategol i arwain ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

2. Bu cyfraniad Cyfarwyddwyr y Gymraeg yn yr Athrofeydd cyfredol yn gyfrwng i gynyddu'r ddarpariaeth academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg ledled y sefydliad, a bu'n gymorth i'r Brifysgol ddenu cyllid sylweddol gan y CCC. Cafodd yr angen am arweinyddiaeth uwch o fewn yr unedau academaidd newydd ei bwysleisio felly yng nghyswllt strategaeth academaidd a chydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith newydd.
3. Cafodd yr agwedd hon ar yr ad-drefnu arfaethedig yn y Brifysgol ei ystyried yn fanwl mewn cyfarfod yn ddiweddar o gangen PA y CCC, a byddai cynrychiolwyr y Gangen yn cyfarfod â'r Is-Ganghellor yn y dyfodol agos i drafod ymhellach.

#### **PENDERFYNWYD**

8. Cyflwyno'r cofnod hwn i bwyllgor y Cyngor a fydd yn ystyried y cynnig terfynol yn dilyn y cyfnod ymgynghori, fel crynodeb o safbwynt y Senedd ynglŷn ag ad-drefnu'r Brifysgol yng nghyswllt yr unedau academaidd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
9. Y bydd y farn a fynegwyd yn y Cyfarfod Arbennig hefyd yn cael ei ystyried gan yr Is-Ganghellor yn rhan o ddatblygiad y cynnig terfynol i bwyllgor y Cyngor (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).